2024-2028

Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

# Amcanion Cydraddoldeb Strategol

## Ein Diben

# Newid bywydau drwy ddysgu.



## Gwerthoedd

### Ysbrydoledig

Rydym yn uchelgeisiol, yn rhagweithiol ac yn arwain drwy esiampl.

### Cynhwysol

Rydym ni'n dîm unigryw – yn gweithio gyda'n gilydd er budd pawb.

### Dylanwadol

Rydym yn hybu adfywiad cymdeithasol ac economaidd

Nodwch os gwelwch yn dda fod yr wybodaeth mewn cromfachau ar ôl bob gweithred yn cyfeirio at y nodwedd warchodedig benodol.

# Amcan 1

## Amrywiaeth Dysgwyr a Thaith y Dysgwr

Er mwyn denu, dethol a chadw ystod amrywiol o ddysgwyr i'r Coleg drwy waredu unrhyw rwystrau i fynediad a chreu amgylchedd sy'n annog ac yn cefnogi pob dysgwr i gyfranogi mewn ffordd ragweithiol. Er mwyn helpu i gyflawni hyn byddwn yn ceisio:

### Polisïau a Gweithdrefnau/Cynlluniau Gweithredu

1. Rhoi gweithdrefnau yn eu lle er mwyn cefnogi dysgwyr Trawsryweddol/heb fod â rhyw benodol gan gynnwys trefniadau mynediad i arholiadau a chofnod dysgwr. (G & T). (G & T)
2. Adolygu polisïau a phrosesau yn unol â Deddf ADY. (D)
3. Datblygu cynllun gweithredu LGBTQ+ yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. (S)

### Derbyniadau

4. Codi ymwybyddiaeth bellach o'r llwybr prentisiaethau o fewn ein cymuned yn cynnwys gweithio gyda chyflogwyr lleol. (E & D)
5. Monitro effaith REACH ar ddarparu proses gyfeirio yn cael ei arwain gan y dysgwr er mwyn i ddysgwyr gael mynediad i ESOL a chefnogaeth gyfeirio ehangach. (Cyfan)
6. Adolygu digwyddiadau cofrestru a recriwtio er mwyn sicrhau eu bod yn cwrdd ag anghenion dysgwyr gydag ADY. (D)
7. Monitro data cyfnewid recriwtio a chofrestru yn ôl nodwedd warchodedig, gan roi camau gweithredu ar waith lle mae unrhyw effaith gwahaniaethol yn cael ei adnabod. (Cyfan)
8. Parhau i ddatblygu pwll o astudiaethau achos amrywiol sy'n tanlinellu traweffaith astudio a gweithio yn y Coleg. Defnyddio'r astudiaethau achos hyn ar y wefan ac mewn cyhoeddusrwydd arall. (Cyfan)

### Meini Prawf Rheolaethol ac Allanol

9. Rhoi dyletswyddau statudol o fewn Deddf ADY ar waith a chwrdd â hwy. (D)
10. Parhau i gwrdd â'r meini prawf ar gyfer Coleg Noddfa. (Cyfan)
11. Dadansoddi effaith Siarter Trawsrywedd yn barhaus. (T)

### Cwricwlwm

12. Gwreiddio EDI yn rhan o'r broses o gynllunio cwricwlwm er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm yn cwrdd ag anghenion ein cymuned amrywiol yn llawn. (Cyfan)
13. Gweithio gyda phartneriaid a chyflogwyr allweddol er mwyn ehangu ein rhaglen Interniaeth Wedi'i Chefnogi a monitro'r cynnydd i gyflogaeth gynaliadwy.
14. Gweithio gyda phartneriaid Dysgu i Oedolion yn y Gymuned er mwyn cwrdd ag amcanion Cwricwlwm Dinasyddion, gan ddarparu cyfleoedd priodol i oedolion allu cael mynediad i ddysgu.
15. Adolygiad sylfaenol o feysydd llafur a chymwysterau AU er mwyn adlewyrchu gwerthoedd Cymraeg cyfoes, gan gynnwys pwysigrwydd hanes trefedigaethol a'i ddylanwad ar gymdeithas yn hanesyddol; effaith hiliaeth ar bobl Ddu, Asiaidd ac o Leiafrif Ethnig a gwyn; y cyfraniadau a wnaed gan bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i gymdeithas. (Amcan cynllun gweithredu gwrth-hiliaeth)

### Cydlyniad Diwylliant a Chymdeithas

16. Datblygu ymhellach waith cymdeithasau / rhwydweithiau dysgwyr a staff yn gysylltiedig gyda themâu EDO (E, G, SO, T, R&R.)
17. Datblygu'r defnydd a wneir o ystod amrywiol o rolau model staff a dysgwr. (Cyfan)
18. Rhedeg ac adolygu effaith ymgyrchoedd NUS ar agweddau EDI allweddol gan gynnwys iechyd meddwl, ymwybyddiaeth o anableddau, cydlyniad cymunedau, Islamoffobia, gwrthsemitiaeth a chyfeiriadedd rywiol. (D&S)
19. Gwella gwelededd y coleg ar yr HOLL safleoedd o safbwynt digwyddiadau EDI allweddol e.e. Pride. (Cyfan)
20. Rhoi rhaglen o gymorthfeydd llais y dysgwr yn ei lle, sy'n cael eu rhedeg gan ddysgwyr sydd ag arbenigedd EDI er mwyn Cefnogi PC's - ac i godi llais dros yr holl grwpiau o ddysgwyr, gan eu darparu gyda'r gofod i rannu eu safbwyntiau eu hunain. (Cyfan)
21. Sefydliadau Addysg Uwch i hyrwyddo gwrth-hiliaeth a sicrhau triniaeth deg a phositif o ddysgwyr Du, Asiaidd, Ethnig Leiafrifol, prentisiaid, staff a chymunedau ym mhob cyfathrebiad, negeseuon ac opteg. (Amcan cynllun gweithredu gwrth-hiliaeth)
22. Cwblhau cynllun gweithredu ac amcanion yn seiliedig ar wybodaeth am drawma, gan gefnogi'r Coleg i ddod yn ymwybodol o drawma. (Cyfan)

# Amcan 2

## Cyflawniad a Chynnydd

Sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cael ei hwyluso i gael cyfle cyfartal i gyflawni eu cymwysterau i ddatblygu'r sgiliau y maent eu hangen er mwyn symud ymlaen i astudiaeth bellach ystyrlon neu gyflogaeth. Er mwyn helpu i gyflawni hyn byddwn yn ceisio:

### Dadansoddi Data o Safon

1. Parhau i adrodd ar y 4 nodwedd warchodedig fel rhan o fonitro data drwy gydol y cylch ansawdd. (G, A, R a D)
2. Parhau i wreiddio hyn mewn prosesau hunanasesiad a QDP ym mhob maes. (G, A, R a D)
3. Adolygu profiad y dysgwr o ran grwpiau sy'n cael eu hadnabod o ddadansoddi data o safon a rhoi camau ar waith er mwyn gwella cyfraddau llwyddiant. (E & G)
4. Sicrhau defnydd effeithiol o werth ychwanegol i sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn eu pwyntiau dechreuol unigol. (Cyfan)
5. Adolygu canfyddiadau BFL a phrosiectau ymchwil cadw dysgwyr ac ymateb i weithredoedd. (G, D & E)
6. Sefydliadau Addysg Uwch i gyhoeddi data dysgwyr, prentisiaid, staff a llywodraethwyr yn flynyddol yn ôl cefndir ethnig, gan gynnwys camau i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau sy'n cael eu hadnabod. (Amcan cynllun gweithredu gwrth-hiliaeth)

### Cefnogaeth ar gyfer Dysgwyr

7. Adolygu darpariaeth ADY yn unol â'r Ddeddf ADY newydd a darpariaeth ar gyfer dysgwyr gydag anawsterau dysgu ac anableddau yn flynyddol, gan adrodd i Lywodraeth Cymru a'r Awdurdod Lleol. (D)
8. Datblygu darpariaeth ar gyfer dysgwyr gydag anghenion mwy cymhleth gan gymryd i ystyriaeth y cwricwlwm, yr amgylchedd ffisegol, cefnogaeth ychwanegol a hyfforddiant i staff. (D)
9. Adolygu'r gefnogaeth ar gyfer dysgu o fewn y ddarpariaeth prentisiaethau gan addasu gweithdrefnau i sicrhau bod yr holl anghenion cefnogi yn cael eu hadnabod, yn cael eu cwrdd lle mae'n briodol ac yn cael eu monitro. (D)
10. Gwella cwblhau a chywirdeb trefniadau mynediad arholiadau a cheisiadau am addasiadau rhesymol (ARRAs) mewn ffordd amserol. (D)

### Dysgu Proffesiynol

11. Cefnogi staff i ddatblygu dysgu cynhwysol er mwyn gwella darpariaeth gyffredinol ar draws y coleg. (D)
12. Datblygu rhaglen hyfforddi EDI ar gyfer staff sy'n cwmpasu'r holl nodweddion gwarchodedig ac yn cwrdd ag anghenion penodol, amrywiol ein cymuned.

# Amcan 3

## Diwylliant Cynhwysol

Hyrwyddo cydraddoldeb, parch a chynhwysiant ar draws y Coleg a'i bartneriaid a gwreiddio cydraddoldeb yn ein penderfyniadau ar bob lefel. Er mwyn helpu i gyflawni hyn byddwn yn ceisio:

### Achrediad Allanol

1. Adolygu ymatebion Arweinwyr Amrywedd sy'n berthnasol i holl ymddygiadau staff yn unol â gwerthoedd ar draws y coleg a chynhyrchu cynllun gweithredu sy'n adnabod unrhyw anghyfartaledd. (Cyfan)
2. Adolygu Arweinwyr Amrywedd. (Cyfan)
3. Cwrdd â gweithredoedd IIP a chynnal safon. (Cyfan)
4. Cwrdd â'r camau gweithredu yn y cynllun gweithredu Amser am Newid. (D)
5. Ennill Hyderus o ran Anabledd Lefel 3 (D).

### Tiwtorial

6. Adolygu'r ddarpariaeth diwtorialau ymhellach a datblygu rhaglen newydd yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth. (Cyfan)
7. Datblygu tiwtorial ar gyfer darpariaeth WBL yn y Coleg yn unol â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth sy'n hygyrch i bob prentisiaeth. (Cyfan)
8. Mynd i'r afael ag argymhellion adroddiad thematig Estyn ar aflonyddu rhywiol ymysg cyfoedion. (G, T & SO)

### Ansawdd

9. Mae systemau ansawdd yn gwerthuso effeithiolrwydd addysgeg ac arferion cwricwlwm wrth hyrwyddo gwrth-hiliaeth, ochr yn ochr gyda strategaethau i fynd i'r afael â bylchau cyrhaeddiad drwy adolygiadau ac adroddiadau blynyddol. (Amcan cynllun gweithredu gwrth-hiliaeth)
10. Cynllunio a gweithredu fframwaith cyffredin er mwyn rhannu arfer gorau wrth ddatblygu gwrth-hiliaeth ar draws pob ffurf ar ddysgu. I'w ddatblygu drwy gydweithrediad sector gyfan (h.y. rheoleiddwyr Addysg Bellach, sefydliadau datblygu, cyrff cyflogwyr, undebau a Sefydliadau Addysg Bellach). (Amcan cynllun gweithredu gwrth-hiliaeth)

### Dysgu Proffesiynol

11. Darparu rhaglen o hyfforddiant rheoli i'w galluogi i gefnogi a herio ymddygiadau yn unol â gwerthoedd y Coleg. (Cyfan)
12. Pob rhaglen datblygiad proffesiynol ac arweinyddiaeth i gynnwys, yn rhan greiddiol ohoni, yr ystyriaeth i wrth-hiliaeth ar gyfer hyfforddi athrawon, a chynnwys addysgu gwrth-hiliol. (Amcan cynllun gweithredu gwrth-hiliaeth)

### Asesiad Traweffaith Cydraddoldeb

13. Ei adolygu a'i wreiddio'n llawn ym mhroses EIA y Coleg. (Cyfan)
14. Datblygu a darparu hyfforddiant EIA ar gyfer yr holl reolwyr fydd yn eu paratoi i ymgymryd ag asesiadau traweffaith effeithiol. (Cyfan)

# Amcan 4

## Cydweithredu ac Ymgysylltu

Sicrhau bod ymgysylltu yn digwydd gyda staff, dysgwyr, cymunedau a grwpiau gwirfoddol/trydydd sector lleol o nodweddion gwarchodedig i gydweithredu, cyfathrebu ac ymgynghori. Er mwyn helpu i gyflawni hyn byddwn yn ceisio:

### Llais y Staff

1. Byddwn yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau gan gynnwys partneriaethau cymdeithasol, grwpiau ffocws ac arolygon staff er mwyn casglu a mesur safbwyntiau staff er mwyn parhau i ddatblygu cynlluniau gweithredu. (Cyfan)
2. Datblygu proses ar gyfer grwpiau ffocws staff, gan ehangu cyfathrebu ac ymgynghori ar draws y Coleg. (Cyfan)
3. Adolygu effeithiolrwydd strategaeth gyfathrebu staff. (Cyfan)

### Llywodraethiant

4. Ehangu'r gynrychiolaeth o'r Corff Llywodraethol er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu ein cymuned yn llawnach. (Cyfan)
5. Darparu hyfforddiant yn rheolaidd i bob aelod o'r Corff Llywodraethol gyda EDI. (Cyfan)
6. Pob pwyllgor, bwrdd neu grwpiau ymgynghorol a sefydlwyd er mwyn mynd i'r afael gyda hiliaeth ac anghyfartaledd i fod yn cynnwys ac yn cael eu harwain gan rai sydd â gwir ddealltwriaeth o'r materion hyn, neu fod ag arbenigedd yn y meysydd. (Amcan cynllun gweithredu gwrth-hiliaeth)

### Ymgysylltu â'r Gymuned

7. Datblygu ymgysylltu gyda staff wrth gynllunio ymwneud y Coleg â digwyddiadau cymunedol e.e. Pride. (Cyfan)
8. Parhau i weithio'n effeithiol gyda phartneriaid cyfredol. (Cyfan)
9. Parhau i ddatblygu partneriaethau newydd sy'n cefnogi amcanion strategol y Coleg. (Cyfan)
10. Hyrwyddo gwrth-hiliaeth a sicrhau triniaeth deg a phositif o ddysgwyr Du, Asiaidd, Ethnig Leiafrifol, prentisiaid, staff a chymunedau ym mhob cyfathrebiad, negeseuon ac opteg. (Amcan cynllun gweithredu gwrth-hiliaeth)

# Amcan 5

## Denu, Cadw a Buddsoddi mewn Datblygiad Staff

Denu, cadw a datblygu ystod amrywiol o bobl i weithio yn y Coleg er mwyn galluogi i ddemograffeg y staff gyfateb yn agosach at ddemograffeg y dysgwyr ac i alluogi rhai sy'n gweithio yma i gael mynediad i ddatblygiad a dilyniant o fewn gyrfa sy'n agored a thryloyw. Er mwyn helpu i gyflawni hyn byddwn yn ceisio:

### Recriwtio

1. Monitro data recriwtio drwy nodweddion gwarchodedig a'u defnyddio i gynllunio gweithgareddau cymunedol. (Cyfan)
2. Datblygu ymhellach y fwrsariaeth Athrawon Awyddus ar gyfer staff y coleg, y gymuned a chyn-ddysgwyr. (Cyfan)
3. Fel rhan o'r Compact Swyddi, cynnal digwyddiadau ymgeisio ymarferol er mwyn cefnogi aelodau o'r gymuned i allu ymgeisio am swyddi yn y coleg. (Cyfan)
4. Prosesau recriwtio a dethol, gan gynnwys sicrhau bod cwmnïau recriwtio yn wrth-hiliol ac yn bod yn rhagweithiol wrth unioni anghydbwysedd amrywiaeth ethnigrwydd staff ac arweinyddiaeth ar bob lefel. (Amcan cynllun gweithredu gwrth-hiliaeth)
5. Adroddiadau blynyddol ac adolygiadau diagnostig a strwythurol i gymharu data ar arweinwyr, rheolwyr, staff a llywodraethwyr yn erbyn proffil corff y myfyrwyr a demograffeg leol ac ymgorffori asesiadau traweffaith gwrth-hiliaeth. (Amcan cynllun gwrth-hiliaeth)

### Dilyniant Staff

6. Adolygu PMAR er mwyn sicrhau bod staff o grwpiau penodol yn gallu cymryd y cyfle hwn. (E)

### Llesiant a Chefnogaeth Staff

7. Parhau i ddatblygu ac adrodd ar draweffaith mentrau lles drwy'r Pwyllgor Lles. (Cyfan)
8. Parhau i ddarparu seminarau cyn-ymddeol er mwyn cefnogi gweithwyr hŷn wrth iddynt newid i fod wedi ymddeol. (A)
9. Gwreiddio holl weithgareddau pencampwyr Amser am Newid a rhai sy'n darparu Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl ac adolygu traweffaith. (D)
10. Rhoi gweithdrefnau Trawsrywedd ar waith er mwyn cefnogi staff i gwrdd ag anghenion rhai o fewn y sefydliad, yn ogystal â galluogi'r coleg i gwrdd ag anghenion unrhyw staff trawsryweddol yn effeithiol. (T)
11. Hyrwyddo amrywiaeth o fuddion sydd ar gael i staff ac asesu effaith eu defnydd. (Cyfan)

# Amcan 6

## Hygyrchedd ac Ystâd

Sicrhau bod yr Ystâd yn adlewyrchu anghenion amrywiol ein cymuned a darparu amgylcheddau gweithio a dysgu hygyrch a chynhwysol. Er mwyn helpu i gyflawni hyn byddwn yn ceisio:

### Mynediad a chyrhaeddiad

1. Monitro hygyrchedd y campws drwy gynnal archwiliadau rheolaidd er mwyn adlewyrchu anghenion amrywiol yr holl ddysgwyr e.e. toiledau niwtral o ran rhywedd, mynediad anabledd. (Cyfan)
2. Sicrhau bod pob campws newydd wedi'i gynllunio i adlewyrchu anghenion amrywiol pob dysgwr h.y. hygyrchedd, gofod gweddi ayyb. (Cyfan)

# Amcan 7

## Tâl Teg

Parhau i sicrhau bod pob aelod o staff o'r holl nodweddion gwarchodedig yn cael tâl teg ac ein bod yn rhagweithiol wrth geisio lleihau unrhyw fwlch o ran cyflog. Er mwyn helpu i gyflawni hyn byddwn yn ceisio:

### Talu

1. Arwyddo Compact Swyddi Cymunedol Bae Caerdydd er mwyn ceisio cynyddu amrywedd o fewn y staff. (Cyfan)
2. Parhau i gynhyrchu a chyhoeddi data staff yn flynyddol a datblygu camau gweithredu o ganlyniad. (G, E & D)
3. Parhau i weithio tuag at y camau a ddatblygwyd uchod. (Cyfan)
4. Byddwn yn parhau i edrych ar arferion gorau wrth herio'r bwlch cyflog. (Cyfan)

# Amcan 8

## Caffael

Byddwn yn sicrhau bod sefydliadau eraill sy'n datblygu cyfleusterau ar ein rhan yn rhoi ystyriaeth briodol i gydraddoldeb, a byddwn yn monitro eu perfformiad tuag at bodloni'r Ddyletswydd. Er mwyn helpu i gyflawni hyn byddwn yn ceisio:

### Polisïau a gweithdrefnau

1. Byddwn yn monitro rhoi gweithdrefnau caffael ar waith, gan gynhyrchu camau gweithredu yn ôl y gofyn. (Cyfan)

### Cymhellion Allanol ar gyfer Gwella

2. Sefydlu proses arolygu, pennu cyfrifoldebau ar gyfer ein holl wasanaethau caffael i fesur prun ai a yw pob sefydliad yn rhoi ystyriaeth briodol i gydraddoldeb. (Cyfan)
3. Cynnwys data o fonitro cydraddoldeb cyflenwyr fel rhan o bob proses adnewyddu cytundeb er mwyn sicrhau bod ganddynt y safon uchaf o ran cydymffurfio gyda deddfwriaeth cydraddoldeb ac amrywedd. (Cyfan)

# Amcan 9

## Casglu a Monitro Data

Cynyddu casglu, dadansoddi a monitro data cydraddoldeb a gwybodaeth gydraddoldeb berthnasol. Er mwyn helpu i gyflawni hyn byddwn yn ceisio:

### Dadansoddi Data

1. Parhau i adrodd ar y 4 nodwedd warchodedig fel rhan o fonitro data drwy gydol y cylch ansawdd. (G, A, R a D)
2. Parhau i gynhyrchu a chyhoeddi data staff yn flynyddol a datblygu camau gweithredu o ganlyniad. (Cyfan)
3. Parhau i gynhyrchu ac ymateb i ddata llais y dysgwr ar gyfer pob PC a datblygu camau gweithredu o ganlyniad. (Cyfan)
4. Pob corff rheolaethol, arianwyr a grŵp aelodaeth i gyhoeddi data proffil y gweithlu, arweinyddiaeth a llywodraethiant yn ôl cefndir ethnig, gan gynnwys camau gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau. (Amcan cynllun gwrth-hiliaeth)

### Dangosfyrddau

5. Gwella dangosfyrddau ymhellach fel eu bod yn cefnogi dadansoddi data EDI. (G, A, R a D)
6. Adolygu cofnodi rhesymau dros dynnu'n ôl ar gyfer pob dysgwr er mwyn cefnogi casglu, dadansoddi a monitro data cydraddoldeb. (Cyfan)
7. Adolygu'r wybodaeth a gesglir yn On Track er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i gefnogi dysgwyr sy'n fregus. (Cyfan)

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu os hoffech chi gael gwybod mwy am yr hyn y mae Coleg Caerdydd a'r Fro yn ei wneud mewn perthynas â'n Hamcanion Cydraddoldeb Strategol, cysylltwch â Michell Hiller-Forster ar **mhiller-forster@cavc.ac.uk**